

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Edmund Rees

Pwyllgor Blynyddol Nos Lun Mai 13eg 2019

Cofnodion

1. Croesawyd y Cynghorwyr ynghyd ac aelodau o'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd Edmund Rees.
2. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts, Paul Weston a'r Cyng. Sirol Garffild Lewis.
3. **Cofnodion Blynyddol 2018:** Cynigiwyd yn gywir gan Gari Jones gydag Alun Owen yn eilio.
4. **Materion yn codi:** System Cyfrifon/rheolau – Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.
Polisi Cydraddoldeb:
 - i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwmo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau i weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
 - ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabled. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn y cysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
 - iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
 - iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn ael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:** Dim
6. **Mantolen Ariannol 2018-2019** – Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.
 - i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael popeth mewn trefn.
 - ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheoliadau sefydlog.
 - iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.
 - iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
7. **Ceisiadau am arian:**
Derbyniwyd 4 Cais – dim mewn sefyllfa i gefnogi'r mudiadau eleni.
8. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau:**
 - i) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) wedi gwario ar un tŷ ac mae'r iddo mewn cyflwr da ar hun o bryd.
 - ii) Gerallt Jones (Pwyllgor Ganolfan) y Pwyllgor Ganolfan am gymryd cyfrifoldeb o'r goeden Nadolig hun ymlaen.
 - iii) Paul Weston (Foelas Cyf) ddim yn bresennol
 - iv) Edmund Rees (Un Llais Cymru) gweler adroddiad yng nghofnodion y Pwyllgor Cyngor.
 - v) Gari Jones (Llywodraethwyr) Pennaeth Newydd yn yr ysgol ers mis Medi a hefyd cogyddes newydd. Cyfrif y disgyblion wedi cynyddu. Wedi cael llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd a hefyd yng nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd. Angen cadw golwg mawl ar gyllid yr ysgol.
9. **Penodi Swyddogion:**

a)	Cadeirydd	- Gerallt Jones
b)	Is-gadeirydd	- Dewi Evans
c)	Elusen Ysbyty	- Edmund Rees
ch)	Pwyllgor y Ganolfan	- Gerallt Jones
d)	Foelas Cyf	- Paul Weston
dd)	Un Llais Cymru	- Edmund Rees
e)	Llywodraethwyr	- Gari Jones
10. **Trosglwyddwyd** y Gadeiryddiaeth i'r Cadeirydd newydd sef Gerallt Jones gan Edmund Rees a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth a chyd-weithio a dymunodd yn dda i Gerallt Jones.
11. **Derbyniwyd** y Gadeiryddiaeth a diolchwyd i Edmund Rees am ei waith a'i arweiniad.
12. **Unrhyw fater arall** – Dim.

Arwyddwyd _____

Cadeirydd

Dyddiad _____

